# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 25/07/2022 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | William Roger Jones | Patricia Hope-Whitney |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Alaw Ceris | Ian Goronwy Williams |
| Greta Hughes | David Andrew Parry | Ann L. Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Hywel James Sinclair Evans.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 27/06/2022**
   Cafwyd cais gan Thomas Victor Jones i newid Rhydygwystl i Canolfan y Gwystl.
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Gwenllian Davenport Hughes        Eilio: Thomas Victor Jones

   Materion yn codi o'r cofnodion
   1. Cais i roi carreg goffa ar wal y fynwent.
      Gofynnodd y cadeirydd os oedd y clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â hyn a cadarnhaodd ei bod ac fe fydd yn cael ei drafod heno o dan eitem rhif 7.
   2. Arwyddion busnes yn y pentref.
      Dywedodd y cadeirydd fod pawb wedi derbyn copi o'r ebost gan Cyngor Gwynedd hefo linc i ymgeisio am yr arwyddion brown a cadarnhaodd y clerc ei bod wedi ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned fel Datganiad. Eglurodd y clerc ei bod wedi siarad hefo'r swyddog o Cyngor Gwynedd sy'n delio hefo'r arwyddion brown ac fe ddywedodd ef fod pob arwydd sydd ddim yn arwydd brown yn anghyfreithlon ac fe fydd yn mynd o gwmpas y pentref i dynnu eu lluniau a cysylltu hefo'r perchnogion a rhoi 7/10 diwrnod iddynt eu tynnu i lawr, os nad ydynt yn gwneud yna fe fydd swyddogion yr Adran Briffyrdd yn mynd o gwmpas i'w tynnu i lawr. 'Roedd y swyddog hefyd yn bryderus iawn am gyffordd Glyn y Weddw oherwydd fod yr arwyddion yma yn amharu ar y gweledEdd ac fe fydd yn trefnu i'r rhain gael eu tynnu i lawr hefyd.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. Caniatad i gynnal Ffair Haf ar y llecyn mwyniant.

   Mae'r Vicer wedi cysylltu hefo'r cadeirydd i ofyn am ganiatad i gynnal Ffair Haf ar y llecyn mwyniant ar y 6ed o Awst a pasiwyd i roi caniatad iddo ac i'r clerc gysylltu hefo'r contractwr i wneud yn siwr ei fod wedi cael ei dorri ac yn edrych yn daclus cyn y dyddiad yma.
   2. Torri coed ar y ffordd i fewn i'r pentref.

Mae Thomas Victor Jones yn bryderus fod coed yn cael eu torri rhwng y garej a Llwyn Iâl, y pryder yw eu bod yn cael eu torri yr adeg yma o'r flwyddyn yng nghanol tyfiant yn hytrach nac ar ddiwedd y flwyddyn. Dywedodd William Roger Jones mai Cyngor Gwynedd sydd wedi rhoi cytundeb i gwmni dorri'r coed yma yn ôl ac fe fydd y gwaith yn gorffen yfory. Mae'r cadeirydd wedi derbyn cwyn hefyd amdanynt gan aelod o'r cyhoedd. Mae David Andrew Parry yn cofio bod cais i dorri'r coed wedi bod o flaen y pwyllgor a'r penderfyniad oedd i basio'r cais ymlaen i Cyngor Gwynedd i wneud penderfyniad arno, cadarnhaodd William Roger Jones bod y cais yma yn gais i dorri'r coed yr ochor arall i'r ffordd gan yr un contractwyr ac felly bod y ddwy ochor i'r ffordd yn cael eu torri yr un amser. Dywedodd Alan Harper-Smith bod y coed yma yn ymestyn dros y ffordd ac angen eu torri er mwyn diogelwch ond hefyd ei fod yn cytuno eu bod yn gwneud y gwaith yr amser anghywir o'r flwyddyn. Pasiwyd i beidio rhoi cwyn i fewn amdanynt gan eu bod angen eu torri.

Mae gan Greta Hughes gŵyn am berth sydd ar y palmant o flaen Glyn y Weddw ac yn amharu ar weledig y ffordd ac yn gofyn i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w dorri.

3. Wal y fynwent.

Mae'r cadeirydd wedi cael galwad ffôn gan berchnogion y Tŷ sydd ochor arall i'r fynwent yn dweud fod rhan o'r wal wedi disgyn i lawr felly fe aeth yno i gael golwg arni. Mae o wedi cael copi o'u gweithredoedd nhw sydd yn dangos mai wal y fynwent ydi hi ac mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol amdani. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r cwmni yswiriant i weld os oes modd gwneud cais am hawl ganddynt i drwsio'r wal ond oherwydd na cyflwr ac oedran y wal sydd ar fai nid oes modd gwneud hynny. Mae'r wal i gyd mewn cyflwr reit ddrwg hefo eiddew yn tyfu drwyddi a gwreiddiau coed yn amharu arni hefyd. Cynnigiodd William Roger Jones bod y Cyngor Cymuned yn chwilio am brisiau gan arbennigwyr i'w thrwsio felly dywedodd y cadeirydd os oes unrhyw un yn gwybod am Saer Maen yna iddynt yrru eu manylion i'r clerc. Dywedodd Greta Hughes y byddai modd i ni ddefnyddio yr arian sydd wedi cael ei roi i'r Cyngor Cymuned yn ewyllys Mrs Harris i drwsio'r wal oherwydd mae'r arian yna i fod i gael ei wario ar waith cynnal a chadw yn y fynwent.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r Seiri Maen yn gofyn iddynt gyfarfod y cadeirydd yn y fynwent i drafod y gwaith o drwsio'r wal a derbyn pris ganddynt cyn gynted a phosibl er mwyn cael cychwyn ar y gwaith yn fuan.

**5. Gweithdai Ardal Ni 2035**

Derbyniwyd ebost ynglŷn â cynnal Gweithdai Ardal Ni 2035 yn mis Medi ac yn gofyn am ddau gynrychiolydd o bob cyngor cymuned a thref, gan mai David Andrew Parry a gymerodd rhan yn yr ymgysylltiad cyntaf cytunodd i gario mlaen hefo'r gweithdai a cytunodd Ian Goronwy Williams i fod yr ail gynrychiolydd. Mae'r clerc am basio eu manylion cyswllt ymlaen i'r swyddog.

**6. Ail baentio'r plac sy'n coffau agor y lôn newydd a'r plac sydd wrth y ffynnon.**

Cafwyd cais gan William Roger Jones yn y pwyllgor diwethaf i ail baentio'r ddau blac yma a cadarnhaodd Thomas Victor Jones eu bod wedi cael eu paentio ychydig flynyddoedd yn ôl ond oherwydd na chafodd ei wneud yn iawn mae'r ysgrifen wedi gwisgo yn barod felly fe fydd rhaid ail baentio y ddwy.

Penderfyniad: Mae Thomas Victor Jones am ofyn i Hefin Underwood am bris a'i anfon i'r clerc a hithau i'w anfon ymlaen i'r aelodau.

7. **Cais i roi carreg goffa ar y wal ym mynwent Llanbedrog.**
   Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r sawl sydd eisiau rhoi y garreg goffa yn y fynwent i ofyn wrtho beth oedd ei maint ac yn fras 15" x 9" oedd o wedi ei gysidro ac hefyd fe wnaeth gadarnhau nad oedd ei gyfnither wedi gosod carreg coffa yn y fynwent wedi'r cyfan a'i gamgymeriad o oedd huna. Cafodd y clerc wybodaeth gan Thomas Victor Jones am y cerrig coffa sydd ym mynwent Deneio hefyd sef £50 yw'r gost ac mae pob plac yn mesur 17.5cm x 35cm hefo 4" rhwng y placiau.
   Penderfyniad: Mae'r aelodau yn hapus i ganiatau gosod y garreg goffa o'r maint 17.5cm x 35cm a'r gost fydd £50 a'i rhoi ar y wal frics sydd ar y llaw chwith yn y fynwent.

8. **Adolygu y Rhestr Asedau ac Asesiad Risc.**
   <u>Rhestr Asedau.</u>
   Mae'r cadeirydd wedi bod drwy'r rhestr asedau ac yn meddwl ei bod yn syniad da, os oes yna blac ar y fainc ei ychwanegu at y rhestr asedau fel fod yna gofnod o pwy mae'r fainc yn ei goffau ac yn lle mae hi a cytunodd yr aelodau fod hyn yn syniad da. Mae Roger Fisher wedi dweud fod yna ddwy neu dair fainc yn garej y cae chwarae ac mae plac ar y rheiny hefyd ond nid yw'r cadeirydd wedi cael amser i fynd yno i'w gweld, fe fydd rhaid eu ychwanegu i'r rhestr asedau. Mae'r cadeirydd am wneud y newidiadau i'r rhestr asedau.
   <u>Asesiad Risc.</u>
   Nid yw'r aelodau wedi cael cyfle i edrych ar yr asesiad risc felly penderfynwyd ei roi ar agenda mis Medi.

9. **<u>Llwybrau</u>**
   <u>Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angela Russell.</u>
   Mae'r fainc dal o flaen y neuadd.
   <u>Torri llecynnau o gwmpas y pentref.</u>
   Cafodd y mater yma ei roi ar yr agenda yn dilyn y pwyllgor diwethaf ar ôl i'r clerc dderbyn ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod am wneud y prif doriad gwledig. Maent wedi torri amryw o lecynnau o gwmpas y pentref ond nid ydynt wedi cael eu torri yn dda iawn yn ôl Alan Harper-Smith, mae'r gwair wedi cael ei adael ac oherwydd nad oeddent wedi torri digon mae'r gwair wedi dechrau ail dyfu yn sydyn iawn. Gan ei bod mor hwyr yn y tymor y flwyddyn yma fe fydd rhaid ail edrych ar y tendar a'i drafod ym mhwyllgor mis Hydref. Gofynnodd Greta Hughes os oes modd gofyn i'r contractwr godi'r sbwriel sydd ar y llecynnau yma cyn strimmio gan fod papur ym mhob man ar ôl iddynt dorri'r llecyn wrth yr Eglwys. Dywedodd y cadeirydd nad yw'r afon sydd wrth Neuadd yr Eglwys wedi cael ei dorri felly mae'r clerc am gysylltu hefo'r contractwr eto.
   Nid yw'r cadeirydd wedi medru cysylltu hefo'r cynghorydd lleol ar ôl iddi gynnig torri'r llecyn dros y ffordd i'r ysgol felly mae'r clerc am gysylltu hefo hi a derbyn y cynnig i dorri'r llecyn triongl lle mae'r blwch post â'r llecyn lle mae'r fainc a'r ddau bot blodau.
   Diolchodd Greta Hughes i Alan Harper-Smith am dorri amryw o lecynnau o gwmpas y pentref a diolchodd y cadeirydd i David Andrew Parry am dorri o gwmpas y pentref hefyd.

Dywedodd David Andrew Parry bod y llwybr sydd yn mynd o Lôn Pin i Cysgod y Bryn (llwybr o Lôn Pin i Ty'n Pwll/Cysgod y Bryn ac mae'r llwybr yn cychwyn rhwng Tremeifion a'r afon) hefo tyfiant go helaeth o eithin arno ac mae perchnogion y tŷ sydd drws nesaf i'r llwybr wedi bod yn torri lelandis ac wedi ei daflu ar ben yr eithin sydd erbyn hyn wedi pydru ac yn debygol o ddisgyn lawr ar y llwybr. Nid yw'r llwybr yma ar y rhestr tendar torri llwybrau felly fe fydd rhaid gofyn i'r contractwr ei dorri fel gwaith ychwanegol a'i ychwanegu i'r rhestr pan fydd y tendar yn mynd allan eto.

Dywedodd Greta Hughes bod llwybr rhif 11 o Wern Newydd i'r ysgol wedi cau, mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r contractwr yn barod am y llwybr yma ar y 11eg o Orffennaf felly fe fydd rhaid iddi gysylltu hefo fo eto. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yn cytuno hefo Greta Hughes bod angen torri llwybr rhif 11 gan ei fod ef wedi derbyn cwynion hefyd a bod angen torri yr ochrau a'r gwaelod.

Ynglŷn â'r llwybr yr oedd Iwan Hughes wedi cwyno amdano sef Castell Grug - Bachellyn - Pen Coron, mae'r llwybr wedi cael ei dorri ond mae rhedyn yn tyfu ar yr ochor a hwnnw sydd angen ei dorri neu mi fydd wedi disgyn ar y llwybr a'i gau.

Fe fydd rhaid ail edrych ar y tendar llwybrau cyn iddo fynd allan eto gan fod yna gymaint o broblemau hefo nhw ac mae cwynion yn cael eu derbyn yn wythnosol amdanynt. Awgrymodd Greta Hughes i wneud y tendar llwybrau fwy hyblyg ac agored hefo'r torri.

Penderfynwyd ei roi ar agenda mis Hydref.

**10. <u>Y Fynwent</u>**

Adolygu ffioedd claddu.

Gan ei fod yn dweud ar y waelod y ddogfen ffioedd eu bod yn sefydlog hyd ddiwedd 31ain o Fawrth 2023 ni fydd modd eu newid tan yr adeg hynny. Mae hon yn ddogfen swyddogol gan y Cyngor Cymuned felly nid oes modd ei newid. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yn anghytuno oherwydd ar ôl i'r clerc anfon rhestr ffioedd y cynghorau cymuned a thref eraill yn Nwyfor i'r aelodau mae o wedi sylwi bod gwahaniaeth mewn prisiau. Mae o hefyd wedi siarad hefo trefnwr angladdau ac mae gwahaniaeth mewn prisiau yn Nwyfor o £150 a £600 am feddiant lle bedd a'r pris yn Llanbedrog ydi £145 felly mae angen eu newid ar frys. Cafwyd cynnig gan Thomas Victor Jones ein bod yn trafod y mater ym mhwyllgor mis Tachwedd ac adolygu'r prisiau adeg hynny a'u bod yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2023 ac mae David Andrew Parry yn eilio.

**11. <u>Cae chwarae</u>**

Cafwyd diweddariad gan Alaw Ceris am y cae chwarae. Mae dau ddigwyddiad ym mis Awst sef diwrnod o hwyl yn y neuadd a'r cae chwarae ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Awst a disco Cymraeg yn y neuadd ar y dydd Iau olaf y gwyliau. Bu cyfarfod ar y dydd Iau cyn i'r ysgol gau i drafod y ddau ddigwyddiad yma a trafod nifer o bethau eraill megis cael dyfynbris gan North Wales Fencing i drwsio'r ffens ac mae Alaw Ceris yn eu cyfarfod ar y 4ydd o Awst yn y cae chwarae ac mae croeso i unrhyw un arall fod yn bresennol. Y bwriad yw i ddefnyddio'r dyfynbris yma wedyn i wneud cais am grant. Mae Alaw Ceris yn awyddus i gael map o'r cae chwarae sydd yn dangos beth sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned gan fod rhan ohono yn hollol ar wahan i weddill y cae chwarae ac felly mae angen ffendio allan os yw'r darn yma o dan

berchnogaeth y Cyngor Cymuned. Mae'r clerc wedi ffonio swyddfa Robyns Owen ddipyn yn ôl i ofyn am y map ond nid yw wedi cael ymateb hyd yn hyn felly fe fydd yn cysylltu eto hefo nhw. Mae'r contractwr i fod i dorri'r gwair yr wythnos yma er mwyn medru sefydlu y dolydd blodau gwyllt ac mae Cyngor Gwynedd yn mynd i fod hefo peiriant torri gwair erbyn yr Hydref felly nhw fydd yn torri'r gwair o hynny ymlaen. Diolchodd Greta Hughes i Alaw Ceris am yr holl waith mae hi yn ei wneud hefo'r cae chwarae a gofynnodd os fyddai posibl cael rhestr o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni a'r gwaith sydd angen ei gyflawni er mwyn cael gweld sut mae pethau'n datblygu ac os fedrith y Cyngor eu helpu mewn unrhyw ffordd, addawodd Alaw Ceris rhannu'r cofnodion hefo'r aelodau o hyn allan. Gofynnodd hefyd am gynllun i ddangos lle mae bob dim yn mynd yn y cae chwarae ac addawodd Alaw Ceris wneud cynllun. Mae'r pwyllgor wedi cael coed ffrwythau ar gyfer y darn lle mae'r dolydd blodau gwyllt ac mae peiriant torri gwair ar ei ffordd, sydd wedi ei gael drwy grant gan Cyngor Gwynedd, unwaith y bydd drws y garej wedi cael ei drwsio. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod eto ym mis Awst ac mae croeso i unrhyw un ymuno a nhw. Gofynnodd y cadeirydd os yw Alaw Ceris wedi gweld y ffeil wreiddiol ar y cae chwarae ond na oedd yr ateb, dywedodd Thomas Victor Jones efallai ei bod yn y cwpwrdd sydd yn y neuadd o dan glo a cadarnhaodd David Andrew Parry bod y ffeiliau i gyd yn y cwpwrdd. Mae nifer o ffeiliau yn dal gan y cadeirydd felly mae angen mynd drwyddynt a penderfynnu beth sydd angen eu cadw ac efallai y bydd angen prynnu cwpwrdd arall i ddal bob dim hefo'i gilydd. Diolchodd y cadeirydd i Alaw Ceris am ei holl waith hefyd.

**12. <u>Neuadd y Pentref</u>**

<u>Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd</u>.

Cafwyd cynnig ym mhwyllgor mis Mehefin i ofyn i Ian Goronwy Williams fod ar yr is-bwyllgor ond nid oedd yn bresennol i fedru ateb, mae o yn bresennol heno ac yn cytuno i fod ar yr is-bwyllgor hefo Patricia Hope-Whitney i gynrychioli'r Clwb Snwcer. Mae Patricia Hope-Whitney yn cael trafferth hefo'r swn ar ei dyfais heno ac felly nid yw gweddill yr aelodau yn ei chlywed felly mae Alan Harper-Smith a Thomas Victor Jones yn cynnig bod Ian Goronwy Williams a Patricia Hope-Whitney yn dod at eu gilydd drost yr haf i drafod y mater ac mae Ian Goronwy Williams yn cytuno a dywedodd David Andrew Parry ei fod yn hapus i'w helpu.

<u>Codi prisiau llogi'r neuadd</u>.

Agenda mis nesaf.

<u>Llogi byrddau a cadeiriau ar gyfer Priodas Pum Mil.</u>

Derbyniwyd ebost gan gwmni teledu yn gofyn os byddai modd llogi'r byrddau a cadeiriau sydd yn y neuadd ar gyfer Priodas Pum Mil. Dywedodd David Andrew Parry mai nod y rhaglen yw ceisio cynnal priodasau am y gost rhataf bosibl felly fe fydd rhaid bod yn ofalus wrth benderfynnu faint i godi arnynt ac nid oes ganddo fo ddim gwrthwynebiad. Mae Thomas Victor Jones yn cytuno ac yn meddwl y bysai'n syniad rhoi eu menthyg am ddim iddynt neu eu llogi am bris isel. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yn syniad da iawn ac yn cytuno hefo David Andrew Parry a Thomas Victor Jones i'w llogi am bris isel. Dywedodd Ian Goronwy Williams y bydd rhaid rhaid cael gwybod faint o gadeiriau a byrddau sydd angen arnynt ac awgrymodd y cadeirydd y bysai'n syniad da iddynt ddiolch i Cyngor Cymuned Llanbedrog am y byrddau a'r cadeiriau ar y rhaglen. Dywedodd Greta Hughes yr unig beth y bysa hi yn ofyn iddynt yw i wneud yn saff eu bod yn cael eu glanhau cyn

dod yn ôl i'r neuadd a ffendio allan pwy sydd yn dod i'w nôl a'u dychwelyd. Awgrymodd William Roger Jones bod rhaid cael gwybod pa bryd mae nhw eu eisiau rhag ofn y bydd rhywbeth ymlaen yn y neuadd a'u bod ddim ar gael, hefyd bydd rhaid eu marcio fel eu bod yn gwybod eu bod yn berchen i Cyngor Cymuned Llanbedrog. Mae David Andrew Parry am fynd i lawr i'r neuadd bore yfory i gyfri faint o fyrddau a cadeiriau sydd ar gael iddynt a gadael i'r clerc wybod. Mae'r clerc wedi gaddo ffonio'r cwmni dydd Mercher felly mae hi am ofyn y cwestiynnau uchod iddynt a gyrru ebost i'r aelodau gyda'r atebion.

**13. Trefniadau mis Awst.**

Gan nad oes pwyllgor ym mis Awst gofynnodd y cadeirydd i bawb gysylltu drwy ebost os bydd argyfwng.

**<u>Taliadau wedi eu cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 4 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£220.00** |
| **Ashley Hughes** – Offer swyddfa | **£22.88** |
| **PPM Technology** – Paent i'r meinciau | **£57.78** |
| **Roger Fisher** – Trwsio a paentio'r meinciau a'r hysbysfyrddau | **£938.00** |
| **ICO** – Ffi Diogelu Data | **£40.00** |
| **Cyngor Gwynedd** – Blodau gan Rhydygwystl | **£106.00** |
| **Cyngor Gwynedd** – Archwiliad Mewnol 2021-2022 | **£216.00** |
| **Victor Price** – chwyn laddwr | **£8.99** |
| **PPM Technology** – tap newydd i'r fynwent | **£24.48** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| **Scottish Power** | **£17.85** |

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C22/0629/38/DT** - Maes Gwyn, Llanbedrog - Cais ar gyfer amnewid caban pren presennol gyda caban newydd ar gyfer defnydd atodol i'r brif eiddo.

Penderfyniad: Gwrthod – yr un rhesymau gwrthod a cais Derwen Deg a Woodcroft.

Cynnig: Greta Hughes        Eilio: David Andrew Parry

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Dim.

**<u>Cais am gyfraniad</u>**

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•

Dim.

Mae Roger Fisher am drwsio drws y garej ond er mwyn gallu gwneud hyn fe fydd rhaid iddo gael y goriadau er mwyn agor y ddau glo a'u defnyddio eto, mae'r goriadau gan Greta Hughes ac mae hi wedi addo mynd a nhw i dŷ Roger Fisher.

Gofynnodd Alan Harper-Smith os yw y cysgodfan bws yn maes parcio Cil Dwrn ar restr waith Roger Fisher, mae'r cadeirydd wedi sôn wrtho ond heb ei ychwanegu eto gan ei fod yn canolbwyntio ar y hysbysfyrddau a'r meinciau yn gyntaf. Mae'r cadeirydd am ofyn wrtho gael golwg arno gan fod golwg arno. Gofynnodd David Andrew Parry os y byddai modd gofyn i Cyngor Gwynedd am gysgodfan bws newydd gan fod pentrefi eraill wedi cael rhai newydd ac mae Thomas Victor Jones yn cytuno.

Diolchodd y cadeirydd i'r aelodau a dymunodd hâf hapus i bawb. Diolchodd William Roger Jones i'r cyfieithydd am ei gwaith. Diolchodd Greta Hughes i'r cadeirydd am gadeirio.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9yh.